Y Comisiwn Etholiadol

Refferendwm ar y system bleidleisio ar gyfer etholiadau Senedd y DU

# Cais ar gyfer statws prif grŵp ymgyrchu

---

Mae'r ddogfen hon ar gyfer ymgyrchwyr sydd eisiau gwneud cais i fod yn brif grŵp ymgyrchu yn y refferendwm ar y system bleidleisio ar gyfer etholiadau Senedd y DU ar 5 Mai 2011.

Cynnwys:

Ynglŷn â'ch cais

Y ffurflen gais

## Termau ac ymadroddion rydyn ni'n eu defnyddio

Rydyn ni'n '**rhaid**' pan ydyn ni'n cyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol penodol. Rydyn ni'n defnyddio '**dylai**' ar gyfer eitemau rydyn ni'n eu hystyried i fod yn isafswm ar gyfer arfer da, ond nad ydyn nhw'n ofynion cyfreithiol.

Does dim rhaid ichi ddilyn y canllawiau hyn, ond os ydych chi, fel arfer byddwch chi'n gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

## Ein hagwedd tuag at orfodi

Os nad ydych chi'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol efallai byddwch chi neu eich mudiad yn agored i sancsiynau sifil neu droseddol. Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth ynghylch agwedd y Comisiwn tuag at orfodi ar www.electoralcommission.org.uk/party-finance/enforcement.

# Cyflwyniad

Cyn i chi ystyried gwneud cais i fod yn brif grŵp ymgyrchu mewn refferendwm, dylech ddarllen ein canllawiau i ymgyrchwyr refferenda i wneud yn siŵr eich bod yn deall y rheolau sydd raid i chi eu dilyn.

Mae hefyd yn egluro'r hyn yw prif grwpiau ymgyrchu, pa fuddiannau maent yn eu derbyn dros ymgyrchwyr eraill, a'r broses o'u dewis.

## Gwneud cais i fod yn brif grŵp ymgyrchu

Important

I wneud cais i fod yn brif grŵp ymgyrchu, rhaid i chi yn gyntaf gofrestru fel ymgyrchydd refferendwm.

Gellwch wneud hyn drwy anfon atom Ffurflen RC1 wedi'i chwblhau. Rhaid i chi wneud hyn naill ai cyn neu ar yr un pryd ag yr ydych yn gwneud cais am statws prif grŵp ymgyrchu. Mae'r cofrestri'n agor ar gychwyn y cyfnod refferendwm. Ni allwn brosesu ceisiadau cyn y dyddiad hwn.

Rhaid i ni dderbyn eich cais ar gyfer statws prif grŵp ymgyrchu a'r holl wybodaeth ategol cyn y terfyn amser statudol ar gyfer y refferendwm hwnnw.

Rydym yn cyhoeddi'r dyddiad mae cyfnod y refferendwm yn cychwyn, a therfyn amser statudol ar gyfer ceisiadau, yn ein canllawiau penodol ar gyfer bob refferendwm. Gellwch ddod o hyd i hyn ar ein gwefan ar http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/adnoddau-ir-rheiny-yr-ydym-yn-eu-rheoleiddio/ymgyrchwyr-mewn-refferenda.

## Ynglŷn â'r ddogfen hon

Dylech ddarllen y ddogfen hon ochr yn ochr â Sefyllfaoedd a gweithdrefnau – Y broses o ddynodi, sy'n egluro egwyddorion dynodi, y buddiannau mae'r prif grwpiau ymgyrchu yn eu derbyn, a'n proses gwneud penderfyniadau.

Mae Rhan A y ddogfen hon yn egluro'r hyn sydd angen i chi ddweud wrthym yn eich cais a pham. Dylech ei darllen yn ofalus cyn cwblhau Rhan B.

Rhan B yw'r ffurflen gais.

2

# Rhan A: Ynglŷn â’ch cais

Bydd yr adran nesaf yn mynd â chi drwy’r hyn sydd angen i chi ddweud wrthym yn eich cais a pham.

# Sut yr ydym yn gwneud ein penderfyniad

Mae'r ffurflen a'r nodiadau hyn yn adlewyrchu'r profion statudol sydd raid i ni eu cymhwyso pan yr ydym yn gwneud ein penderfyniad ynglŷn â phwy i benodi fel prif ymgyrchydd.

O dan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, rhaid i ni fod yn fodlon fod ymgeisydd yn bodoli ar gyfer bob deilliant, a all gynrychioli'n ddigonol y rheiny sy'n ymgyrchu ar gyfer y deilliant hwnnw.

Os oes mwy nag ymgeisydd ar gyfer deilliant, rhaid i ni ddynodi'r un sy'n cynrychioli'r rheiny sy'n ymgyrchu ar gyfer y deilliant hwnnw i'r raddfa fwyaf.

Dim ond y wybodaeth sy'n berthnasol i'r profion hyn y gallwn ei chymryd i ystyriaeth.

Yn y nodiadau hyn, rydym yn egluro pa wybodaeth rydym yn geisio, a pham.

Dylech ystyried bob adran yn ofalus i wneud yn siŵr fod eich ymatebion yn ffocysu ar y ffactorau perthnasol, gan y byddwn yn dibynnu ar y wybodaeth yr ydych yn ei rhoddi wrth i ni gyrraedd ein penderfyniad ar ddynodiad.

Byddwn yn rhoi ystyriaeth neilltuol i'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu ynglŷn â chefnogaeth i'ch cais (adran 3), eich cynlluniau ar gyfer cynrychioli ymgyrchwyr eraill (adran 4) a'ch cynhwysedd ymgyrchu (adran 5), gan fod y rhain yn dangos i ba raddau y byddech chi'n cynrychioli'r rheiny sy'n ymgyrchu ar gyfer y deilliant yr ydych chi'n ei gefnogi.

Byddwn hefyd yn ystyried yn ofalus y dystiolaeth a ddarperwch am eich cynhwysedd sefydliadol (adran 6), gan fod hyn yn dangos pa mor effeithiol y gellwch fod yn cynrychioli'r rheiny sy'n ymgyrchu ar gyfer y deilliant yr ydych chi'n ei gefnogi.

Am ragor o wybodaeth ar y profion statudol, gweler y ddogfen hon:
Sefyllfaoedd a gweithdrefnau – Y broses o ddynodi

# 4

## Cyhoeddi ceisiadau

Er mwyn tryloywder, byddwn yn cyhoeddi ceisiadau ar gyfer statws prif grŵp ymgyrchu pan yr ydym yn cyhoeddi'n penderfyniad.

Fodd bynnag, ni fyddwn yn cyhoeddi:

- rhifau ffôn personol neu gyfeiriadau e-bost, neu
- gwybodaeth a geir yn Adran 5 – Cynhwysedd ymgyrchu

## Cwblhau'r ffurflen

### Adran 1 – Manylion eich sefydliad

Cwblhewch yr adran hon yn llawn, os gwelwch yn dda.

Mae'n bwysig fod eich person cyswllt yn rhywun sydd wedi eu hawdurdodi i weithredu ar eich cais ar ran y sefydliad. Mae hyn oherwydd efallai y byddwn angen gofyn i chi am ragor o wybodaeth neu eich gwahodd am gyfweliad ar fyr rybudd.

### Adran 2 – Amcanion eich sefydliad

Os gwelwch yn dda, rhowch ddatganiad byr i ni o'r modd mae amcanion eich sefydliad yn cyd-fynd â'r deilliant refferendwm yr ydych chi'n ei gefnogi.

### Adran 3 – Cefnogaeth i'ch cais

Bydd yr adran hon yn ein helpu i asesu i ba raddau yr ydych yn cynrychioli amrediad o ymgyrchwyr ar gyfer y deilliant yr ydych chi'n ei gefnogi.  Dim ond os ydym yn ystyried y gall prif grwpiau ymgyrchu gynrychioli'n ddigonol y rheiny sy'n ymgyrchu ar gyfer yr un deilliant y gallwn eu dynodi.

Rydym yn cydnabod mewn rhai refferenda ei bod yn bosib na fydd unrhyw grwpiau sefydledig, hawdd eu hadnabod yn ymgyrchu ar gyfer deilliant neilltuol. Mewn achosion o'r fath, byddwn yn ystyried y lefel o'ch cefnogaeth yn y cyd-destun hwn, a byddwn yn gosod pwysau neilltuol ar eich ymateb yn Adran 4.

### Manylion am eich cefnogwyr

Os gwelwch yn dda dywedwch wrthym:

- Os ydych yn sefydliad ymbarél, manylion am y sefydliadau sy'n aelodau
- Manylion o grwpiau eraill sy'n cefnogi'ch cais

Dylech gynnwys:

- Enw a chyfeiriad y grŵp
- Amcanion y grŵp, a'u diddordeb yn y deilliant yr ydych chi'n ei gefnogi. Os yn briodol, efallai yr hoffech gynnwys ffigyrau aelodaeth, neu dystiolaeth arall o weithgaredd sylweddol sy'n gysylltiedig â'r mater refferendwm.

Important

Am bob grŵp, rhowch ynghlwm gadarnhad o'u cefnogaeth wedi'i lofnodi gan rywun sydd ag awdurdod i wneud hynny ar eu rhan, os gwelwch yn dda.

### Sut mae eich cefnogwyr cynrychioli'r rheiny sy'n ymgyrchu ar gyfer yr un deilliant

Os gwelwch yn dda dywedwch wrthym sut mae'r sefydliadau a grwpiau hyn yn dangos eich bod yn cynrychioli sbectrwm o farn y rheiny sy'n ymgyrchu ar gyfer yr un deilliant.

## Adran 4 – Cynrychioli ymgyrchwyr eraill

Bydd yr adran hon yn ein helpu i asesu i ba raddau y byddwch yn ceisio ymgysylltu grwpiau eraill sy'n ymgyrchu ar gyfer y deilliant, ond na restrwyd yn Adran 3.

Os gwelwch yn dda, dywedwch wrthym sut y byddech yn ceisio cynnwys eraill yn eich ymgyrch, os yw eich cais yn llwyddiannus. Er enghraifft, unrhyw gynlluniau i gysylltu â grwpiau eraill er mwyn eu gwahodd i weithio gyda chi.

## Adran 5 – Cynhwysedd ymgyrchu

Bydd yr adran hon yn ein helpu i asesu cynhwysedd eich ymgyrch i gyrraedd gymaint o bleidleiswyr â phosib ar draws ardal y refferendwm, er mwyn cynrychioli'n ddigonol y rheiny sy'n ymgyrchu ar gyfer yr un deilliant.

6

Pan yr ydym yn cyhoeddi ceisiadau ar ôl gwneud ein penderfyniad, ni fyddwn yn cynnwys yr adran hon.

Os gwelwch yn dda dywedwch wrthym:

- Faint o bleidleiswyr yr ydych yn bwriadu eu cyrraedd trwy ddefnyddio'r buddiant postio am ddim a roddir i'r prif grŵp ymgyrchu.
- Pa ddulliau eraill a fyddech yn eu defnyddio i gyfathrebu'ch neges i wahanol fathau o bleidleiswyr.

  Er enghraifft, cyfryngau ar-lein, cyfarfodydd cyhoeddus neu gyswllt uniongyrchol. Dylech egluro'r math o bleidleisiwr y mae pob math o ddull cyfathrebu wedi ei anelu ato.
- Lefel realistig ariannu yr ydych yn ei ragweld ar gyfer eich ymgyrch, sut y byddech yn disgwyl cyflawni hyn a phryd mae'r arian yn debygol o fod ar gael. Dylech roi digon o fanylion i ddangos eich gallu i ariannu ymgyrch effeithiol. Er enghraifft, y lefel ariannu a addawyd eisoes, ac unrhyw fenthyciad sylweddol neu gyfleusterau credyd yr ydych yn bwriadu eu cael.

  Nid oes angen i chi roi enwau'r ffynonellau gwirioneddol neu arfaethedig.

Bydd rhaid i chi adrodd ynglŷn â rhai rhoddion a benthyciadau i ni ar ôl y refferendwm. Am ragor o wybodaeth, gweler y dogfennau hyn:

Trosolwg o roddion ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm

## Adran 6 – Cynhwysedd sefydliadol

Bydd yr adran hon yn ein helpu i asesu p'un a oes gennych y cynhwysedd sefydliadol i gynrychioli'n ddigonol eraill sy'n ymgyrchu ar gyfer y deilliant yr ydych chi'n ei gefnogi.

Os gwelwch yn dda dywedwch wrthym ynghylch:

- Y modd mae eich strwythur sefydliadol yn galluogi cyflenwi'r ymgyrch ar draws ardal y refferendwm.
- Sgiliau a phrofiad eich staff allweddol mewn ymgyrchu graddfa-fawr.
- Y rheolaethau a fydd gennych yn eu lle i gyfrif yn fanwl am y defnydd o grant a ariennir yn gyhoeddus, os yw eich cais yn llwyddiannus. Er enghraifft, efallai bod gennych gyfrif banc ar wahân, neu weithdrefn awdurdodi benodol.

## Adran 7 – Llofnodion

Dylai eich cais gael ei lofnodi gan y person yr ydych chi wedi ei gofrestru gyda ni fel eich 'person cyfrifol', a gan eich cyfarwyddwr, prif weithredwr neu rywun mewn rôl debyg sydd wedi eu hawdurdodi i wneud hynny.

Trwy lofnodi'r ffurflen, rydych yn cadarnhau fod y wybodaeth yr ydych yn ei rhoi i ni yn gywir hyd eithaf eich gwybodaeth a chred, ac y byddwch yn cydymffurfio ag amodau a thelerau'r grant a ariennir yn gyhoeddus, os ydych yn cael eich dynodi.

Darllenwch amodau a thelerau grant y prif grŵp ymgyrchu

# 8

## Anfon eich cais atom

Pan yr ydych wedi cwblhau eich cais, gellwch ei anfon atom i:

Y Comisiwn Etholiadol
3 Bunhill Row
Llundain
EC1Y 8YZ

E-bost: pef@electoralcommission.org.uk

Important

Os ydych yn anfon copi atom drwy e-bost, rhaid i ni hefyd dderbyn copi caled wedi'i lofnodi cyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau

# Rhan B:
# Y ffurflen gais

Y dylech ei defnyddio os ydych eisiau gwneud cais i ni i fod yn brif grŵp ymgyrchu.

Cewch atodi tudalennau parhad a dogfennau ategol os oes angen. Dylech sicrhau fod y rhain wedi'u labelu'n glir a'u clymu'n ddiogel i'r ffurflen.

# 10

## Cyfieithiadau a fformatau eraill

Am wybodaeth ar gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall neu mewn fersiwn print-mawr neu Braille cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol os gwelwch yn dda:

Ffôn: 020 7271 0500
Ebost: publications@electoralcommission.org.uk

| At ddefnydd y Comisiwn Etholiadol: |
|---|
| / PVS |

Y Comisiwn Etholiadol

# Refferendwm ar y system bleidleisio ar gyfer etholiadau Senedd y DU

# Cais am statws prif grŵp ymgyrchu

## Adran 1 – Manylion eich sefydliad

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r sefydliad | | | |
| Deilliant yr ydych yn ymgyrchu drosto | **IE** ☐ **NA** ☐ | | |
| Cyfeiriad y pencadlys | | | |
| Enw cyswllt | | | |
| Rhif ffôn | | E-bost | |

## Adran 2 – Eich amcanion

Os gwelwch yn dda cyfeiriwch at ein nodiadau ar dudalen 4 am y wybodaeth y dylech ei chynnwys yn yr adran hon

## Adran 3 – Lefel y gefnogaeth i'ch cais

Os gwelwch yn dda cyfeiriwch at ein nodiadau ar dudalennau 4 a 5 am y wybodaeth y dylech ei chynnwys yn yr adran hon

## Adran 4 – Cynrychioli ymgyrchwyr eraill

Os gwelwch yn dda cyfeiriwch at ein nodiadau ar dudalen 5 am y wybodaeth y dylech ei chynnwys yn yr adran hon

## Adran 5 – Cynhwysedd ymgyrchu

Os gwelwch yn dda cyfeiriwch at ein nodiadau ar dudalennau 5 a 6 am y wybodaeth y dylech ei chynnwys yn yr adran hon

## Adran 6 – Cynhwysedd sefydliadol

Os gwelwch yn dda cyfeiriwch at ein nodiadau ar dudalen 6 am y wybodaeth y dylech ei chynnwys yn yr adran hon

## Adran 7 - Llofnodion

Rwyf i / Rydym ni yn gwneud cais i'r Comisiwn Etholiadol i fod yn brif grŵp ymgyrchu ar gyfer y deilliant refferendwm a nodwyd.

Rwyf i / Rydym ni yn datgan,

- hyd eithaf fy / ein gwybodaeth a chred, fod y wybodaeth yr wyf i / rydym ni wedi eu darparu ar y ffurflen hon yn wir
- Rwyf i / Rydym ni wedi darllen ac yn cytuno i gael ein clymu gan yr amodau a thelerau sy'n gysylltiedig â derbyn a defnyddio grant a ariennir yn gyhoeddus i brif grwpiau ymgyrchu, ac
- Rwyf i / rydym ni wedi ein hawdurdodi i lofnodi'r cais hwn ar ran y sefydliad a enwir uchod.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnodwyd | | | |
| Printiwch enw | | | |
| Safle | | Dyddiad | |
| Llofnodwyd | | | |
| Printiwch enw | | | |
| Safle | | Dyddiad | |

At ddefnydd y Comisiwn Etholiadol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad derbyn | | Gwiriwyd gan | |
| Dyddiad mewnbynnu i'r gronfa ddata | | Rhif cyfeirnod ffeil | |